

CYFARFOD Y CYNGOR - 16 IONAWR 2019.

DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL YR AMLINELLIR YN EITEM 10(B) O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â rheol weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiad canlynol (gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, H. Fychan, D. Grehan, A. Cox, J. Williams, M. Weaver, S. Rees-Owen, J. Davies, K. Morgan, J. Cullwick, D. Macey, E. Webster, S. M. Evans, A. Chapman, E. Stephens ac L. Jones) i'r Rhybudd o Gynnig fel yr amlinellir yn eitem 10(B) o agenda'r Cyngor a dderbyniwyd gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R. W. Smith, R. Lewis:-

Yn debyg i Lywodraeth Leol a'r holl wasanaethau cyhoeddus eraill, mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi profi toriadau ariannol sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae hyn wedi digwydd ar yr un pryd â chynnydd er 2014 mewn achosion o droseddau llai cyffredin ond mwy niweidiol, gan arwain at y nifer uchaf o ddynladdiadau yn ystod y degawd diwethaf a chynnydd mawr mewn troseddau sy'n gysylltiedig â chylllyll.

Yn y Gyllideb ddiweddar, dyrannodd Llywodraeth y DU £160 miliwn i wrthderfysgaeth ond methodd â chyhoeddi unrhyw arian newydd ar gyfer plismona rheng flaen hanfodol. Mae'r dyraniad o £300m ychwanegol gafodd ei gyhoeddi yn Setliad yr Heddlu ym mis Rhagfyr yn ddim mwy nag ymdrech i fwrw'r toriadau gan y Llywodraeth Ganolog i'r cysgod, ac yn trosglwyddo'r baich o ariannu Heddluoedd i gymunedau lleol trwy rymuso Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i godi'r rhan honno o Dreth y Cyngor sy'n cael ei defnyddio ar gyfer plismona. Mae'r grant o £161 miliwn i'w rannu ymhlith y 43 o Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn annigonol, tra bod y grant o £153 miliwn i dalu am y cyfraniad pensiwn yn golygu bod rhaid i'r Heddluoedd gyflenwi diffyg sylweddol, gan fod diffyg cenedlaethol o tua £420 miliwn o safbwynt pensiynau'r heddlu. Mae'r diffyg ariannu digonol yn ddigwylydd, ac yn cynyddu'r pwysau sydd eisoes ar ein Heddluoedd, gan gynnwys Heddlu De Cymru, a bydd yn cynyddu'r baich ar Heddluoedd ledled y wlad, sydd eisoes wedi gwneud arbedion sylweddol a lleihau eu gweithluoedd.

Yng ngoleuni hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y canlynol wedi digwydd tra bod Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr:

- Mae cyllid yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi'i dorri o tua 20% mewn termau real rhwng 2010 a 2017.
- Mae cyllid y Llywodraeth Ganolog i'r Heddluoedd wedi'i dorri o tua thraean mewn termau real er 2010, gan olygu bod bron i 22,000 yn llai o swyddogion yr Heddlu.
- Dydy ymrwymiad Llywodraeth y DU yn yr adolygiad o wariant yn 2015 i "warchod yr arian sy'n cael ei wario ar yr Heddlu ar y cyfan, mewn termau real", ddim wedi

cael ei fodloni gan fod y cyllid sy'n dod o'r Llywodraeth Ganolog wedi gostwng mewn termau real. Mae unrhyw setliadau gwastad ar gyfer heddluoedd unigol yn dibynnu'n llwyr ar godi Treth y Cyngor yn lleol, sy'n ddibynnol ar gyfyngiadau demograffig.

- Mae morâl ac amodau o fewn heddluoedd wedi dirywio'n ddifrifol. Darganfu arolwg Tâl ac Amodau Ffederasiwn yr Heddlu 2018 fod 7.8% o'r 27,000 o ymatebwyr wedi ymgymryd ag ail swydd (y nifer uchaf erioed), fod bron i 45% yn poeni am eu cyllid personol, ac nad yw 87.9% yn teimlo eu bod yn cael eu talu'n deg yn dilyn gostyngiad o 18% yn eu tâl ers 2009/10.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i gyfleu'r angen i ariannu plismona rheng flaen yn briodol ar frys, trwy ddatrysiad ariannol hirdymor sy'n gwrthdroi'r toriadau difrifol ac yn darparu'r rhyddhad sydd wir ei angen ar Heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.
- Gofyn am adolygiad brys o'r fformiwla ariannu gyfredol i ddatrys y trefniant presennol, sy'n amlwg yn ddiffygiol, sy'n golygu na all Heddlu De Cymru dderbyn cyllid Prifddinas.

MEWNOSOD

- *Ysgrifennu at Brif Weinidog y DU, yr Ysgrifennydd Cartref ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn i bwerau Plismona llawn gael eu datganoli i Gymru fel y maen nhw yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

COUNCIL MEETING – 16TH JANUARY 2019.

**AMENDMENT TO THE NOTICE OF MOTION AS SET OUT AT ITEM 10(B) OF
THE COUNCIL AGENDA**

In accordance with procedure rule 10.4.1 of Part 4 of the Council's Constitution the following amendment (was received from County Borough Councillors P.Jarman, G.Davies, H.Fychan, D.Grehan, A.Cox, J.Williams, M.Weaver, S.Rees Owen, J.Davies, K.Morgan, J.Cullwick, D.Macey, E. Webster, S.M.Evans, A.Chapman, E.Stephen and L.Jones) to the Notice of Motion as set out at item 10(B) of the Council agenda received from County Borough Councillors R. W. Smith and R. Lewis:-

Like Local Government and all other public services, Police forces in England and Wales have been subjected to significant funding cuts over the course of the last decade. This has coincided with a rise in lower-volume but high-harm crime instances since 2014, culminating in the highest number of homicides in the last decade and a steep rise in knife related crime.

In the recent Budget announcement, the UK Government pledged £160m for counter-terrorism but failed to announce any new money for vital frontline policing, and the allocation of an extra £300m announced in December's Police Settlement merely serves to dress up cuts from Central Government and passes the buck of funding for Forces to local communities by empowering Police and Crime Commissioners to raise the policing element of Council Tax. The £161m grant to be shared amongst the 43 Forces in England and Wales is inadequate, whilst the £153m grant to cover the pension contribution changes still leaves a significant shortfall for Forces to cover with the national police pension shortfall standing at approximately £420m. The blatant lack of adequate funding further increases pressure on our Police Forces, including South Wales Police, and will increase the burdens on Forces across the Country, who have already made significant savings and culled their workforce.

In light of this, the Council acknowledges that under the Conservative-led UK Government:

- Between 2010 and 2017, funding for the police in England and Wales has been slashed by around 20% in real terms.
- Since 2010, central government funding to police forces has been cut by almost a third, in real terms, leading the number of officers to fall by almost 22,000.
- The UK Government's commitment to "protect overall police spending in real terms" in the 2015 spending review has not been met as the central funding element has actually fallen in real terms. Any flat settlements for individual forces

are purely contingent on local Council Tax raises which are subject to demographical constraints.

- Morale and conditions within forces have severely deteriorated. The 2018 Police Federation Pay and Conditions survey discovered that a record 7.8% of the 27,000 respondents had taken second jobs, almost 45% worry about their personal finances, and 87.9% do not feel fairly paid after an approximate 18% pay decrease since 2009/10.

This Council therefore resolves to:

- Write to the Home Secretary to convey the urgency for frontline policing to be properly funded through a long-term financial solution that reverses the severe cuts and provides much-needed relief to Police Forces across England and Wales.
- Request that a review into the current funding formula be undertaken urgently to remedy the clearly flawed arrangement that currently sees the South Wales Police excluded from receiving Capital City funding.

INSERT:

- *“ Write to the Prime Minister, Home Secretary and Secretary of State for Wales requesting that full Policing powers be devolved to Wales as they are in Scotland and Northern Ireland “*